# Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-2026

**Asesiad Effaith Integredig gan:** Tîm VAWDASV, Is-adran Gymunedau Llywodraeth Cymru

**Gweinidog Cabinet cyfrifol:** Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

**Dyddiad cychwyn:** Tachwedd 2021

## Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol (pum mlynedd) gyntaf ym mis Tachwedd 2016 ar gyfer y cyfnod 2016-2021. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn cyd-fynd ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddrafft diwygiedig o’r Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Bydd y Strategaeth Genedlaethol newydd yn cwmpasu 2021-2026.

O dan Adran 3 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015 rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol sy'n nodi amcanion a chamau gweithredu i gyflawni dibenion y Ddeddf: atal, amddiffyn a chymorth.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor o randdeiliaid allweddol i adolygu effeithiolrwydd nodau ac amcanion y Strategaeth bresennol a phenderfynu pa ddiwygiadau oedd eu hangen yng ngoleuni newidiadau polisi a datblygiadau eraill, yn ogystal â'r dirwedd sy'n newid ers dechrau pandemig byd-eang Covid-19.

Dyma fydd amcanion ein Strategaeth:

- Amcan 1: Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.
- Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.
- Amcan 3: Cynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.
- Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal
- Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr
- Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ymatebol ledled Cymru

Yr effaith y bwriedir i'n Strategaeth ei chael yw newid parhaol mewn diwylliant a'r ymateb i VAWDASV, gwella'r gefnogaeth i ddioddefwyr a'u plant, ac atal troseddu ac aildroseddu.

Rydym yn argymell dull Cymru gyfan, ond er mwyn iddo fod yn effeithiol rhaid i bob parti gael ymdeimlad o berchnogaeth o'r strategaeth ac ymrwymiad i'r ymdrech sy'n angenrheidiol i gyflawni ein gweledigaeth. Gellir cyfeirio rhai partïon; i eraill mae'r ymrwymiad hwnnw drwy gydsyniad. Ym mhob achos, bydd cefnogaeth barod i'r strategaeth yn gyrru dogfen fyw a fydd yn llywio gweithgarwch, blaenoriaethau a chyfeiriad ar lawr gwlad ac yn sicrhau bod camau gweithredu unigol yn cyd-fynd â'i gilydd. Dyma'r ffordd sy'n rhoi'r cyfle gorau i ni gyflawni ein huchelgais. Rydym yn gobeithio cyflawni'r berchnogaeth hon drwy'r dull cydweithredol a gymerwyd i ddatblygu'r strategaeth a'n hymrwymiad i wrando, dysgu a gwella'n barhaus wrth i ni ei gweithredu. Mae'r model hwn yn nodi trywydd cyffredin y byddwn yn ei ddilyn gyda'n gilydd.

Atal fydd wrth wraidd y strategaeth. Er bod cefnogaeth i oroeswyr a newid system i wella canlyniadau i oroeswyr yn parhau i fod yn rhan o'r arfau sydd gennym, hoffem symud y ffocws oddi wrth y symptomau at yr achosion, drwy ddilyn ymagwedd iechyd y cyhoedd. Mae egwyddorion iechyd y cyhoedd yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau trais. Mae ymagwedd iechyd y cyhoedd at atal trais yn ceisio gwella iechyd a diogelwch pob unigolyn drwy fynd i'r afael â ffactorau risg sylfaenol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dioddef neu'n cyflawni trais.

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth, fel yr hyn a gasglwyd yn adroddiad Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)? a gyhoeddwyd gan Uned Atal Trais Cymru, i lywio ein dull gweithredu. Byddwn yn creu 'storfa ganolog o wybodaeth' i gydlynu a lledaenu gwybodaeth am VAWDASV ac i lunio ymchwil yn y dyfodol.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu â goroeswyr a chyflawnwyr i ddeall beth yw eu barn am y Strategaeth ddrafft. Byddwn hefyd yn croesawu tystiolaeth bellach i gefnogi ein cynigion, neu awgrymiadau amgen, gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith bosibl ein cynigion ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn diweddaru ein hasesiadau effaith yn ôl yr angen cyn cyhoeddi'r Strategaeth derfynol yn 2022.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth ddrafft, rydym wedi ystyried y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. Rydym o'r farn bod y Strategaeth ddrafft yn cyfrannu at:

- Cymru lewyrchus drwy leihau'r effaith economaidd negyddol sy'n aml yn gysylltiedig â bod yn oroeswr VAWDASV;
- Cymru iachach drwy wella lles corfforol a meddyliol goroeswyr VAWDASV a'u teuluoedd;
- Cymru fwy cyfartal drwy sicrhau bod goroeswyr VAWDASV yn cael cymorth i'w hannog i gyflawni eu potensial;
- Cymru o gymunedau cydlynus drwy godi ymwybyddiaeth am VAWDASV ac annog pawb i gydnabod nad yw'n dderbyniol (yn enwedig yn achos aflonyddu yn y gweithle ac ar y stryd); a
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang drwy ddatblygu storfa ganolog i gasglu data ac ymchwil sy'n gysylltiedig â VAWDASV, gyda'r nod o ddysgu o arfer da.

## Casgliad

### Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Mae'r Asesiad Effaith Integredig drafft hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ddrafft ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Byddwn yn croesawu sylwadau ar yr asesiadau effaith fel rhan o'r broses ymgynghori ac yn eu diweddaru cyn cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ddiwygiedig. Mae hyn yn rhoi cyfle i unrhyw un roi eu barn ar ein blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer atal VAWDASV.

Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yn ein Strategaeth yw:

- Dioddefwyr / goroeswyr
- Cyflawnwyr / cyflawnwyr honedig
- Yr Heddlu / Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu / Y Farnwriaeth / Carchardai a Gwasanaethau Prawf
- Gwasanaethau cymorth VAWDASV / grwpiau cynrychioliadol (sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector)

Mae Strategaeth Genedlaethol ddrafft VAWDASV 2021-2026 yn adeiladu ar y Strategaeth bresennol, a gyhoeddwyd yn 2016. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor o sefydliadau partner allweddol i adolygu cynnydd yn erbyn y Strategaeth bresennol, rhwystrau rhag cyflawni ei hamcanion a newidiadau yn y tirlun polisi a all effeithio ar ymdrechion i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae ein partneriaid wedi gallu cynrychioli anghenion a safbwyntiau'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau a'r darparwyr gwasanaethau eu hunain. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ymgymryd â rhaglen ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft, a fydd yn ceisio ymgysylltu â'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan ein cynigion.

Rydym wedi cynhyrchu fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r Strategaeth ddrafft i'w gwneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu defnyddio i adolygu'r Strategaeth ddrafft cyn ei chwblhau a'i chyhoeddi.

Byddem yn croesawu awgrymiadau am unrhyw grwpiau sy'n cynrychioli'r rhai a allai gael eu heffeithio gan ein cynigion – yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig – ar gyfer ymgysylltu ymhellach yn ystod y cyfnod ymgynghori.

### Beth yw'r effeithiau mwyaf amlwg, cadarnhaol a negyddol?

Mae’r Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ddrafft yn cydnabod bod Cymru wedi cyflawni llawer o bethau wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ond mae'n derbyn bod llawer i'w wneud o hyd.

Rydym am adeiladu ar y gwaith da sydd wedi digwydd ers lansio'r Strategaeth Genedlaethol VAWDASV gyntaf yn 2016 a sicrhau ymagwedd Cymru gyfan, gyda’n sefydliadau partner yn cymryd pherchnogaeth o'r Strategaeth, a'r gwaith o’i chyflawni.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, amcangyfrifwyd bod 2.3 miliwn o oedolion y DU rhwng 16 a 74 oed wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol, yn

ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (1.6 miliwn o fenywod a 757,000 o ddynion). Mae'r ffigurau hyn yn ostyngiad bach o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm costau cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn 2016/17 oedd £70 biliwn (wedi'i ddiweddaru i brisiau 2019/20), gyda'r rhan fwyaf o hyn yn ymwneud â'r niwed corfforol ac emosiynol a ysgwyddwyd gan ddioddefwyr (£50 biliwn). Nodwyd hyn mewn adroddiad gan y Swyddfa Gartref *(The Economic and Social costs of Domestic Abuse, Olivier et al, 2019*). Amcangyfrifir mai tua £36,000 yw'r costau ar gyfer pob dioddefwr cam-drin domestig. Nid yw hyn yn ystyried allbwn a gollwyd o ganlyniad i'r niwed a ddioddefwyd, gyda nifer yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith ac yn llai cynhyrchiol ar ôl iddynt ddychwelyd. Amcangyfrifwyd bod hyn yn £7.7 biliwn ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Pan fydd VAWDASV yn gwaethygu, mae dioddefwyr yn fwy tebygol o fod angen cymorth gan wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd a chymorth. Amcangyfrifwyd mai £2.5 biliwn oedd y gost i wasanaethau iechyd, gyda bron i 60 y cant o'r costau hyn yn ymwneud â'r niwed emosiynol a ddioddefwyd.

Mae yna hefyd gorff o lenyddiaeth sy'n awgrymu bod plant dioddefwyr / goroeswyr cam-drin domestig yn dioddef o effaith gydol oes, gan eu harwain i fod yn fwy tebygol o ddioddef neu gyflawni camdriniaeth yn y dyfodol.

Bydd Atal wrth wraidd y Strategaeth. Bydd newid y diwylliant fel bod VAWDASV ac aflonyddu ar y stryd ac yn y gweithle yn cael eu hystyried yn annerbyniol, yn arwain at bobl yn teimlo'n fwy diogel. Disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol ar eu lles meddyliol. Bydd lleihau neu atal achosion o VAWDASV yn gwella lles corfforol a meddyliol dioddefwyr a goroeswyr a bydd hefyd yn lleihau'r costau economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â VAWDASV.

Byddwn yn gweithio i sicrhau gwell dealltwriaeth o VAWDASV – gyda'r cyhoedd a chyda gweithwyr proffesiynol. Bydd gwell dealltwriaeth o'r ffurfiau amrywiol y gall VAWDASV eu cymryd yn helpu'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, ac yn mynd drwyddi.

**Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **Yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **Yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae’r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Cymru lewyrchus drwy leihau'r effaith economaidd negyddol sy'n aml yn gysylltiedig â bod yn oroeswr VAWDASV;
- Cymru iachach drwy wella lles corfforol a meddyliol goroeswyr VAWDASV a'u teuluoedd;
- Cymru fwy cyfartal drwy sicrhau bod goroeswyr VAWDASV yn cael cymorth i'w hannog i gyflawni eu potensial;
- Cymru o gymunedau cydlynus drwy godi ymwybyddiaeth am VAWDASV ac annog pawb i gydnabod nad yw’n dderbyniol (yn enwedig yn achos aflonyddu yn y gweithle ac ar y stryd); a
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang drwy ddatblygu storfa ganolog i gasglu data ac ymchwil sy'n gysylltiedig â VAWDASV, gyda'r nod o ddysgu o arfer da.

Bydd gweithio gyda'n partneriaid – datganoledig a heb ddatganoli – drwy ddull glasbrint yn ein galluogi i adolygu ein gweithredoedd yn barhaus, eu monitro a gwerthuso eu canlyniadau. Rydym yn bwriadu i'r Strategaeth fod yn ddogfen fyw, y gellir ei haddasu i ateb heriau newydd dros ei hamserlen bum mlynedd.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol. Felly, nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, os bydd unrhyw effeithiau negyddol yn codi – neu'n cael eu hamlygu drwy ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft – yna bydd newidiadau ymarferol yn cael eu hystyried.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?**

Ein prif nod yw lleihau cyfraddau VAWDASV yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â'r Strategaeth Genedlaethol, byddwn yn monitro cynnydd drwy gyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol.

Un o'r camau gweithredu arfaethedig yn y Strategaeth ddrafft yw creu 'storfa ganolog o wybodaeth' i gydlynu a lledaenu gwybodaeth am VAWDASV ac i lunio ymchwil yn y dyfodol.

Bydd y Storfa yn ceisio dwyn ynghyd a chydlynu'r gwaith ymchwil a gwerthuso sy'n cael ei wneud gan yr holl bartïon perthnasol i gael sylfaen o dystiolaeth fwy cynhwysfawr i lywio penderfyniadau, gan gynnwys comisiynu. Bydd yn cydlynu'r data ansoddol a meintiol i lywio dealltwriaeth o nifer yr achosion, yr angen a'r effaith, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn deall cymhlethdodau VAWDASV ac yn cyflwyno hyn yn y modd mwyaf defnyddiol, mesur llwyddiant a llywio ein gwaith.

## Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y cam(au) gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol: Paul Webb

Adran: Is-adran Cymunedau Llywodraeth Cymru

Dyddiad:  30 Tachwedd 2021